

Gêm disgrifio data

Erbyn y rhan hon o'r cwrs, bydd myfyrwyr yn dod ar draws data go iawn yn eithaf aml, a bydd angen iddyn nhw wybod sut i'w disgrifio. Mae'r gêm disgrifio data yn ymarfer defnyddiol am 10–15 munud.

Rhaid i chi rannu'r myfyrwyr yn barau fel bod un myfyriwr ym mhob pâr yn wynebu oddi wrth y prif fwrdd gwyn gyda bwrdd o'i flaen a bwrdd gwyn bach (ac ysgrifbin, yn amlwg) ac mae'r myfyriwr arall yn wynebu'r bwrdd gwyn.

Yna, rhowch siart ar y prif fwrdd gwyn (fel arfer, rwy'n defnyddio siart diweithdra o safle olrhain yr economi y BBC). Mae gan y myfyriwr sy'n wynebu'r bwrdd gwyn funud i ddisgrifio'r graff mae'n gallu ei weld i'w bartner (nid oes dim un o'r myfyrwyr yn cael troi).

Fel arfer, mae hyn yn eithaf trychinebus, ond gallwch ddechrau trafodaeth sy'n canolbwyntio ar elfennau allweddol disgrifio data. Gofynnwch iddyn nhw edrych ar y graffiau a siarad am ffyrdd gwell o'u disgrifio. Y gobaith yw y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Tarddbwynt/pwynt terfyn
- Brig/cafn
- Cyfraddau newid
- Yr angen i ddefnyddio data crai o'r ddwy echelin

Yna gofynnwch i'r myfyrwyr gyfnewid lle a defnyddiwch graff gwahanol (mae chwyddiant yn gweithio'n eithaf da – ond efallai y byddai'n syniad da dweud wrthyn nhw am ganolbwyntio ar un o'r llinellau (RPI neu CPI) yn hytrach na'r ddwy).

Fel arfer, mae'r canlyniadau'n llawer gwell yr ail dro...